

Safle Treftadaeth y Byd i dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru - 2021

Mae Cyngor Gwynedd bellach wedi sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r tirwedd yn arddangos stori anhygoel yr esblygiad o gymdeithas amaethyddol yr ucheldir i un wedi'i ddominyddu gan y diwydiant llechi; gyda trefi, chwareli, a chysylltiadau trafniadaeth yn naddu eu ffordd trwy mynyddoedd Eryri i lawr i'r porthladdoedd eiconig.

Y Tirwedd Llechi yw'r 33ain Safle Treftadaeth y Byd UNESCO yn y DU i ymuno â safleoedd fel y Grand Canyon, Dinas y Fatican, Wal Fawr Tsieina a Machu Picchu ar y rhestr fyd-eang fawreddog.


Am ragor o wybodaeth, ymwelwch â'r wefan

www.llechi.cymru

Llechi Cerfiedig Cymreig


Ar un adeg, Chwarel y Penrhyn, Dyffryn Ogwen oedd prif gynhyrchydd llechi Prydain a'r byd. Fel Aelod Seneddol gyfoethog dros Lerpwl fe wyddai Richard Pennant am ofynion y farchnad am lechi. Rhwng 1782 a 1808, sef blwyddyn ei farwolaeth, ehangodd y cynnyrch o tua 1,000 tunnell i 20,000 tunnell y flwyddyn.

Roedd bywyd chwarelwr yn galed ac yn beryglus, ond yn hytrach na chael ei lethu gan ei waith, roedd y chwarelwr llechi Cymreig ar y cyfan yn rhywun a ymfalchïai yn ei sgiliau gwaith. Does dim son am addysg ffurfiol ar sut i ddylunio, gosod a threfnu patrymau ar lechi, ond yn amlwg, fe ddyfeiswyd offer pwrpasol a datblygodd pob cerfiwr ei arddull personol.



LLECHI CERFIEDIG

Dyma enghreifftiau o gelf werin unigryw a ymarferwyd gan chwarelwyr Dyffryn Ogwen yng Ngwynedd.



Nodiant Cerddorol ar lechen



Dyma enghreifftiau o gelf werin unigryw a ymarferwyd gan chwarelwyr Dyffryn Ogwen yng Ngwynedd. Cafodd y cerfiadau cywrain hyn, rhai yn batrymau geometrig gyda chanolbwynt ac eraill yn darlunio gwrthrychau bob dydd, sgoriau cerddorol, blodau, adar a phlanhigion, eu creu gan weithwyr arbennig o fedrus o chwareli llechi yng Ngogledd Cymru.

LLECHI CERFIEDIG



Llechen uwchben tân – Dyffryn Ogwen 1823

Mae rhai o'r enghreifftiau gorau o'r gelf werin hon yn dyddio o tua 1823 i 1845. Darganfuwyd y mwyafrif yn ardal Dyffryn Ogwen, er bod ychydig o enghreifftiau wedi'u darganfod yng Nghorris a Ffestiniog. Datgelodd ymchwiliadau archeolegol diweddar o ranbarth Dyffryn Nantlle weithiau tebyg.

Er bod y rhan fwyaf o'r llechi cerfiedig yn cael eu defnyddio fel amgylchoedd tân, defnyddiwyd llechi tenau hir i'w rhoi o dan ddreseri a chrëwyd gwrthrychau addurniadol cerfiedig llai fel ffaniau llechi a dodrefn bach ar gyfer y cartref hefyd.



Mae pob un yn rhoi cipolwg ar sut oedd bywyd yn y cyfnod a beth oedd y chwarelwyr yn ei werthfawrogi a'i fwynhau.

Gellir dod o hyd i rai o'r llechi mewn cartrefi yn yr ardal o hyd, tra bod eraill wedi'u defnyddio mewn gerddi a chaeau neu wedi'u taflu.

Roedd y siart seryddol anhygoel yma yn seiliedig ar waith dyn o Bentir - John William Thomas a oedd yn fathemategydd hunanddysgedig.

Gwelodd Arsyllfa Frenhinol Greenwich rai o'i ddarluniau ac aeth yntau i weithio iddynt, gan gadw mewn cysylltiad â ffrind yn Tregarth.

Gofynnodd i'w brodyr gerfio rhai o'i luniau astrolegol ar lechi, a mae copi ohono bellach yn rhan o'r casgliad llechi cerfiedig yn Storiell.

LLECHI CERFIEDIG

Rhodddwyd y llechen cerfiedig cyntaf i gasgliad Amgueddfa Storiell ym 1943, sef llechen o gartref John Parry Llanllechid, y cerddor a gyfansoddodd 'Cyfeillgarwch'. Fei cerfiwyd ganddo ar gyfer ei le tan ym 1838. Roedd Gwenno Caffell, ysgrifennydd Cymdeithas Archeolegol Llandygai a Llanllechid yn gyfarwydd a'r lechen yma, a phan fu iddi ddod ar draws enghraifft arall o lechen cerfiedig, penderfynwyd chwilio am fwy. Yn anffodus, mae nifer o enghreifftiau o'r gwaith yma wedi cael eu difetha wrth i dai newid dwylo.

Llyfryddiaeth

Caffell G. 1983, *Llechi Cerfiedig Dyffryn Ogwen*
Parry, WJ. 1897, *Chwareli a Chwarelwyr*
Gwyn, David 2015, *Llechi Cymru: Archaeoleg a Hanes*